Ysgol Dyffryn Ogwen

Bydded Goleuni

www.ysgoldyffrynogwen.org

Ffôn: 01248 600291

Bwletin i Rieni – Hydref 2013

Dyddiadau Pwysig

25.10.13
HMS – Dim ysgol i'r disgyblion

19.11.13
Cyfarfod Rhieni Bl. 12 & 13

03.12.13
Cyfarfod Rhieni Bl. 7.

23.12.13 – 03.01.14
Gwyliau'r Nadolig

Clwb Gwaith Cartref

Mae'r Clwb Gwaith Cartref ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau o 3:20 hyd at 4:20 mewn ystafell gyfrifiadurol.
Mae hyn yn gyfle ardderchog i ddisgyblion gael cymorth gyda'u gwaith ysgol.

Mae croeso i ddisgyblion o flwyddyn 7 i 11 fynychu'r Clwb.

Enillwyr Gwobrau 2012-2013

Cynhaliwyd Cyfarfod Gwobrwyo Blynyddol yr ysgol nos Fercher, Medi 18. Y gwr gwadd eleni oedd Hywel Williams, Aelod Seneddol. Y mae Mr Williams wedi hen arfer croesawu disgyblion yr ysgol i San Steffan, ac yr oedd yn braf cael y cyfle i'w groesawu i'r ysgol. Ein gwesteion oedd Mrs Beryl Orwig – Ysgoloriaeth Dafydd Orwig, Cynghorydd Godfrey Northam – Ar ran Cyngor Cymuned Bethesda, Mr Dafydd Owen – Cadeirydd Cyngor Cymuned Llandygai a Mr & Mrs Thomas – Tarian Carwyn Thomas.

Hoffai'r ysgol ddiolch i'r noddwyr isod am eu cyfraniadau ariannol tuag at y Cyfarfod Gwobrwyo.

DU Construction Cyf; Adeiladwyr, Gaerwen.
Evans, Wilson & Evans, Adeiladwyr, Caernarfon.

Gwobrau Blwyddyn 7 :-

	Esme Crowe	Gethin Hughes
	Joshua Hughes	Non Jones
	Hannah Morgan	Cadi Roberts
	Jorden Roberts	Dylan Robertson
	Lucy Tatam	Gwilym Tossell

Gwobrau Pynciol:

Cymraeg	Luke Crowe		Erin Bryn
(Noddwyd gan Mr & Mrs J H Evans, Tegfryn Rhiwlas)			
Saesneg	Eleanor Williams		Cai Dickinson
Ffrangeg	Esme Crowe		Bryn Harris
Cerdd	Elen Owen		Sara Parry
Mathemateg	Gethin Williams	Lois Jones	Lowri Evans
Gwyddoniaeth CA3	Luke Crowe		Manon Hughes
Gwyddoniaeth CA4	Gwynfor Rowlinson		Sacha Jones
Gwyddoniaeth CA5	Cara Thomas		Gethin Williams
Hanes	Mari Gwyn		Sacha Jones
Daearyddiaeth	Gwynfor Rowlinson		Sioned Jones
Astudiaethau Crefyddol	Bethan Owen		Catrin Roberts
Addysg Gorfforol	Katie Midwinter		Joshua Williams
Celf	Sian Mererid Jones		Mared Owen
Lletygarwch	Sioned Jones		
Datblygiad Plentyn	Lucy Robinson		
Dylunio a Thechnoleg (Gwrthiannol)	Thomas Parry		Enfys Irvine
Technoleg Gwybodaeth	Shona Roberts		Benjamin Roberts
Gwobr Cynnydd	Sara Elen Jones	Oliver McNeill	Shannon Williams
(Noddwyd gan deulu'r diweddar Wyn Davies, Bronydd Isaf, Llanllechid)			

Gwobrau Cyngor Cymuned Llandygai:

Ymdrech Bl. 7	Joshua Heaton	Ellen Gould
Ymdrech Bl. 8	Callie Bewley	Wil Owain
Ymdrech Bl. 9	Scott Bullock	Catrin Jones
Ymdrech Bl. 10	Carys Jones	Nicholas Johns

Gwobrau Presenoldeb	Lois Ashton	Luke Crowe
	Joshua Hughes	Manon Hughes
	Carys Jones	Mari Jones
	Morgan Jones	Cadi Rhys
	Cameron Robertson	Dylan Robertson
Mabolgampwyr y Flwyddyn Bl. 7	Sion Jones	Sophie Ellis
Mabolgampwyr y Flwyddyn Bl. 8	David Florence	Elin Owen
Mabolgampwyr y Flwyddyn Bl. 9	Aled Owsianka Roberts	Manon Hughes & Samantha Lewis
Mabolgampwyr y Flwyddyn Bl. 10	Morgan Owen & Robbie Wilberforce	Louise Jeffreys
Gwobr Tîm y Flwyddyn	Côr Iau yr ysgol blwyddyn 7, 8 a 9.	
Perfformiad Gorau TGAU	Mari Davies	Jack Henry
	Bethan Hughes	Annest Rowlinson
	Gwynfor Rowlinson	
Perfformiad Gorau Lefel A	Mari Gwyn	Sian Mererid Jones
	Rebeca Roberts (2011)	
Tarian Carwyn Thomas	Morgan Owen	
Tlws Athletwr y Flwyddyn	Aled Owsianka Roberts	
Gwobr Goffa Frank Rhys Jones	Dafydd Williams	
Ysgoloriaeth Cyngor Cymuned Bethesda	Alun Hughes-Jones	Iwan Jones Osian Owen
Gwobr Goffa Dafydd Orwig	Mari Gwyn	Sian Mererid Jones

Cinio Ysgol Am Ddim

Efallai fod eich plentyn yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim os ydych yn derbyn un o'r isod:-

*** Cymorth Incwm**

*** Lwfans Chwilio am Waith**

*** Credyd Treth Plant (yn unig)**

*** Gwarant Credyd Pensiwn**

Cysylltwch gyda'r Adran Budd-daliadau yng Nghaernarfon ar 01286 682689.

Newidiadau Staff

Croeso cynnes i'r staff newydd sydd wedi ymuno â ni'r tymor hwn:-

- Mrs Nest Williams – Athrawes Daearyddiaeth
- Mrs Sian Owen – Athrawes Saesneg

Dymunwn yn dda i'r staff sydd wedi ein gadael ar ddiwedd y tymor diwethaf, sef Mrs Anita Owen, Daearyddiaeth.

Dyddiaduron

Mae pob disgybl ym mlynyddoedd 7-13 wedi derbyn dyddiadur personol er mwyn trefnu eu gwaith yn rheolaidd. Mae'r dyddiadur hefyd yn fodd pwysig o gyfathrebu rhwng yr ysgol a'r rhieni. Byddwn yn defnyddio'r dyddiadur i rannu gwybodaeth ynglŷn â'r canlynol:-

- Gwaith Cartref
- Adroddiadau ac Asesiadau
- Monitro a thracio cynnydd yn erbyn targedau
- Cyfweliadau Tiwtor
- Llythyrau I Rieni
- Arholiadau/Asesiadau dan Reolaeth
- Presenoldeb

Gofynnwn yn garedig i chi drafod cynnwys y dyddiadur gyda'ch plentyn a'i arwyddo'n wythnosol.

Grant Gwisg Ysgol

Mae'n bosib fod gennych hawl i gael grant gwisg ysgol i'ch plentyn os ydych yn derbyn un o'r canlynol:-

*** Cymorth Incwm**

*** Lwfans Chwilio am Waith**

*** Lwfans Rhiant Gweddw**

*** Gwarant Credyd Pensiwn**

Cysylltwch gyda'r Adran Budd-daliadau yng Nghaernarfon ar 01286 682689.

Canlyniadau Arholiadau 2013

Roedd hi'n bleser unwaith eto cydnabod llwyddiant ein disgyblion. Cafwyd canlyniadau TGAU da iawn eto eleni – gydag 85% o ddisgyblion blwyddyn 11 llynedd yn ennill yr hyn sy'n cyfateb i 5 gradd A*-C. Y pump disgybl a dderbyniodd wobrau am y perfformiadau TGAU gorau eleni oedd Mari Davies, Jack Henry, Bethan Hughes, Annest Rowlinson a Gwynfor Rowlinson.

Absenoldeb Disgyblion

Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn hanfodol os yw'r disgyblion i fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt. Er mwyn cynnal a gwella presenoldeb yn yr ysgol rydym wedi mabwysiadu trefn gyswllt diwrnod cyntaf drwy ddefnyddio system gyfathrebu 'Schoolcomms'. Mae'r system yn gallu anfon neges destun yn uniongyrchol at rieni a gofalwyr. Gyda'ch cefnogaeth a'ch cydweithrediad gobeithiwn y gallwn wella presenoldeb. Gofynnwn I chi ddilyn y camau isod pan fydd eich plentyn yn absennol.

1. **Hoffwn i chi gysylltu â'r ysgol cyn 8:45 ar y bore cyntaf y mae eich plentyn yn absennol:- Ffonio 01248 600291.**
2. **Os na fydd yr ysgol wedi derbyn galwad ffôn erbyn 9:15 y bore yn dweud wrthym pam nad yw eich plentyn yn yr ysgol, yna bwriedir cysylltu gyda'r cartref neu'r man gwaith.**
3. **Gofynnir i chi nodi rheswm yr absenoldeb yn nyddiadur eich plentyn.**

Diolch am eich cydweithrediad.

Gwyliau Teuluol yn ystod y Tymor

Rydym wedi derbyn arweiniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â hyn.

Nid ydym o blaid rhyddhau disgyblion yn ystod tymor ysgol ar gyfer gwyliau teulu. Gofynnwn am eich cydweithrediad i osgoi sefyllfaoedd o'r fath.

Prydlondeb

Mae disgwyl i bawb fod yn yr ysgol erbyn **8:50am** er mwyn rhoi dechrau trefnus i'r diwrnod. Gofynnwn am gydweithrediad rhieni yn hyn o beth, yn enwedig ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd. **Bydd disgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr yn y bore, neu sy'n hwyr ar gyfer eu gwersi, yn cael eu cadw mewn amser cinio neu ar ôl ysgol.**

Gadael Tir yr Ysgol

Ni chaniateir i ddisgyblion Blynyddoedd 7 – 11 adael tir yr ysgol yn ystod amser egwyl na chinio. Nid oes caniatâd i'r disgyblion adael tir yr ysgol ar ôl i'r bysiau eu gollwng wrth yr adeilad yn y bore.

Ysgol Ddi-Fŵg

Hoffem eich atgoffa bod tu mewn i adeilad yr ysgol a'r tir tu allan yn ardaloedd di-fŵg. Ni chaniateir ysmygu ar fws mini'r ysgol nac ar y bysiau ysgol 'chwaith. Mae ysmygu yn y mannau hyn bellach yn erbyn y gyfraith a byddwn yn cysylltu â rhieni os bydd disgyblion yn cael eu dal yn ysmygu.

Wythnos Sgiliau

Bu disgyblion blwyddyn 7 am ddeuddydd o Gwrs Croeso – y diwrnod cyntaf yn aros yn Rhyd Ddu a'r gwaith caled o gerdded yr Aran a'r ail yn adeiladu lloches ym Mharc Meurig gyda'r pwyslais ar weithio fel tîm.

Gan fod blwyddyn 7 yn Rhyd Ddu manteisiwyd ar y cyfle i roi tridiau o brofiadau gwahanol i weddill yr ysgol, gan ganolbwyntio ar hybu'r sgiliau. Dyma oedd arlwy'r wythnos:

- Blwyddyn 7 – Rhyd Ddu, gweithgareddau Indonesia a dinasyddiaeth.
- Blwyddyn 8 – Gweithgareddau hanes a diwylliant Dyffryn Ogwen, datrys problemau a diwrnod dinasyddiaeth gan ganolbwyntio ar adnoddau dŵr.
- Blwyddyn 9 – Gweithgareddau gwrth-fwlio, dinasyddiaeth, cerddoriaeth a chelf. Bydd rhai o'r gweithgareddau'n cyfrannu at y Bac a'r sgiliau allweddol.
- Blwyddyn 10 – Gweithgareddau'r Bac, sgiliau allweddol a rhifedd.
- Blwyddyn 11 – Gweithgareddau'r Bac, sgiliau allweddol a sgiliau gwaith.

Daeth pawb adref yn flinedig ond wedi mwynhau - yn adnabod ei gilydd yn well ac yn teimlo yn ran go iawn o Ysgol Dyffryn Ogwen - Croeso mawr i chi!

Diolch yn fawr iawn i'r holl staff a myfyrwyr chweched dosbarth oedd yn fodlon aros dros nos yn Rhyd Ddu i roi'r cyfle yma i'r disgyblion.

Adran Addysg Gorfforol

Ras y Cob
Llongyfarchiadau i Beca Jackson o flwyddyn 8 am ddod yn gyntaf yn Ras y Cob (dan 16) ym Mhorthmadog yn ddiweddar. Bu Beca a Moli Jackson bl 7 yn cymryd rhan yn y ras filltir hanesyddol yma a gynhaliwyd eleni ar ôl seibiant o ugain mlynedd. Braf oedd gweld Mici Plwm ar y system sain yn cyhoeddi un o ferched Dyffryn Ogwen yn gyntaf dros y linell derfyn! Da iawn genod.

Rygbi
Tîm rygbi dan 14 wedi chwarae dwy a curo dwy eleni. Wedi curo 38-20 yn erbyn Friars a 38-5 yn erbyn Brynrefail. Da iawn hogia!

Treialon Pêl-rwyd Eryri
Llongyfarchiadau i Manon Hughes ar gael ei dewis i garfan pêl-rwyd dan 16 Eryri.

Pêl-rwyd
Llongyfarchiadau i dim pêl-rwyd bl8 gyrhaeddodd rownd plât yr 8 olaf yn nhwrnamaint pêl-rwyd yr Urdd i ysgolion Gogledd Cymru.

Prif Ddisgyblion

Cara Thomas a Josh Ward yw'r Prif Ddisgyblion am y flwyddyn addysgol 2013 -2014.
Dymunwn yn dda iddynt yn eu gwaith.